

# Adolygiad cryno 'Cwricwlwm y Bont' - 2024

Mae cwricwlwm Canolfan Addysg Y Bont wedi eu seilio ar dri llwybr dysgu ar hyn o bryd; Anffurfiol, Lled-ffurfiol a Ffurfiol. Mae disgyblion yn dilyn llwybr dysgu sy'n seiliedig ar eu hanghenion dysgu unigol. Mae pob llwybr yn wahanol, gan ganiatáu i ddisgyblion wneud cynnydd a datblygu ar eu cyflymder unigol eu hunain. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen hyblygrwydd, gan ganiatáu felly i ddisgyblion symud rhwng y llwybrau, pan fo'n briodol.

I ddysgu



To learn

I ofalu



To care

Y cyfle i lwyddo




The opportunity to succeed



Mae disgyblion ag anghenion Dwys a Lluosog yn dilyn y Llwybr Anffurfiol. Mae'n disgyblion yn CAYB yn derbyn profiadau sensori sy'n datblygu eu hymgysylltiad ac yn sicrhau pob cyfle i gyrraedd lefel uchaf o annibyniaeth. Mae tua 30% o ddisgyblion yr ysgol yn dilyn y Llwybr yma ac mae bron pob un yn gwneud cynnydd da.

Mae'n cwricwlwm Lled-Ffurfiol wedi cael ei gynllunio ar gyfer ein disgyblion ag anawsterau dysgu dwys. Rhoddir profiadau a chyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau, cyfathrebu, llesiant emosiynol ac annibyniaeth. Rydym yn teimlo bod disgyblion yn dysgu orau pan fydd dysgu yn deillio o'u profiadau perthnasol, unigol. Mae dros 60% o ddisgyblion yr ysgol yn dilyn y Llwybr yma ac mae bron pob un yn gwneud cynnydd da neu gwell.



Mae disgyblion sy'n dilyn y Llwybr dysgu Ffurfiol yn cael mynediad i gwricwlwm mwy strwythuredig ac academiaidd eu natur. Bydd disgyblion ar y Llwybr hwn yn dechrau dangos cynnydd o fewn Camau Cynnydd, Meysydd Dysgu a Phrofiad y Cwricwlwm newydd I Gymru. Mae defnydd o fframweithiau statudol fel y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn cael eu hatgyfnerthu trwy weithgareddau ymarferol a phrofiadau bywyd go iawn. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd yn dilyn y Llwybr ffurfiol yn 2024, gwelir cynnydd da iawn o fewn y cohort. Am fwy o wybodaeth am Cwricwlwm Y Bont, cliciwch ar y linc: [www.canolfanaddysgybont.cymru](http://www.canolfanaddysgybont.cymru), ac yna 'Cwricwlwm'.